



Teithiau Cerdded
Thematig Rhif 6

Taith Gerdded Creigiau'r Tywi

Cip ar ddaeareg
anhygoel Dyffryn Tŵyi

Taith Gerdded Creigiau'r Tywi Cip cyflym

Pellter	6 cilomedr
Amser	2 awr

Taith Gerdded Creigiau'r Tywi

Mae daeareg Dyffryn Tywi a cheunant Sawdde yn bwysig iawn. Ar y daith gerdded fer hon, gellir olrhain daeareg yng ngharreg yr adeiladau a'r waliau cerrig sych.

Edrychwch am

Olygfeydd anhygoel a chreigiau lleol a ddefnyddiwyd ar gyfer adeiladau a waliau.

Cofiwch

Ddilyn yr arwyddion marcio llwybrau a chadw at ymylon y caeau i osgoi difrodi cnydau neu darfu ar dda byw.


Sylwch

Fod y lleoedd parcio yn gyfyngedig iawn ar ddechrau'r daith. Gofalwch eich bod yn gadael digon o le i geir basio. Mae hefyd yn bosib parcio ger cylchfan Llangadog a cherdded i fyny'r ffordd at ddechrau'r llwybr cerdded.

Mae'r llwybr yn serth iawn mewn mannau.

Dewch yn barod

Rydyn ni'n argymhell y dylai fod gennych fap a'ch bod yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Gofalwch eich bod yn gwisgo dillad addas a'ch bod yn barod am dywydd o bob math. Mae esgidiau caled neu esgidiau addas eraill yn hanfodol gan fod y tir yn gallu bod yn wlyb weithiau.



Y DAITH

Mae'r daith yn cychwyn yn SN687293, ac yn dilyn Llwybr Coedwig Felindre a Stâd Abermarlais.

Mae'r tŷ wyth ochrog bychan yn hen Dollty ar y ffordd hynafol o Lanymddyfri i Landeilo. Roedd stâd fawr Abermarlais yn gartref yr Arglwydd Rhys a pharodd i fod yn gartref pwysig i Bendefigion trwy gydol yr Oesoedd Canol a'r canrifoedd dilynol.

Gan ddilyn arwyddion y llwybr cerdded, cerddwch i'r gogledd orllewin ar draws y caeau tuag at y coetir. Bydd angen ichi groesi nant fechan a dwy gamfa cyn ichi fynd i mewn i'r ardal goediog. Dilynwch y llwybr cerdded i fyny'r rhiw serth (Allt y Parc – llethr coediog y Parc), trowch i'r chwith ar y pen a dilynwch y trac ar y dde cyn ichi gyrraedd cylch troi y goedwig.

Daw'r llwybr i ben wrth gamfa sy'n croesi i mewn i gaeau a pharcdir agored pen y bryn. Trowch i'r dde a cherddwch gyda'r wal ar y dde ichi, ewch drwy'r agoriad ac yna cerddwch gyda'r wal ar y chwith.

Y parcdir agored hwn oedd Parc Ceirw stâd Abermarlais. Trwy gerdded yn dawel drosto mae'n bosib o hyd gweld ceirw ar gyrion y coetir. Mae'n werth oedi i fwynhau'r olygfa i'r de dros ddyffryn Tywi a draw ar draws copaon tywyll Bannau Sir Gâr. Mae'r brigiadau creigiog uchel bychain yn fannau da i weld yr olygfa ac maent yn safleoedd anheddau cynnar. Yma hefyd y gellir gweld y chwareli bychain y daeth y garreg ar gyfer y wal ohonynt. Sylwer ar natur frau a bychan y garreg, sy'n siâl Silwraidd.

Ar ddiwrnod clir gellir gweld llethrau'r Bannau yn goleddfu i'r de ac mae'r creithiau ar wynebau'r copaon yn

arwyddion o waith cafnu'r rhewlifoedd mawr. Mae ceunant Sawdde i'w weld yn glir y tu hwnt i'r comin ac mae bryn uchel Trichrug yn dangos yr amgaeadau o ddechrau'r 19eg Ganrif a nodir gan waliau carreg sych unionsyth. I'r de-orllewin gellir gweld Garn Goch a rhagfuriau carreg llwyd-dywyll y tywodfeini Ordoficaidd.

Mae afon Sawdde, sy'n rhuthro o gopaon uchel Bannau Sir Gâr a llyn hudol Llyn y Fan Fach, yn datguddio'r hen dywodfeini coch ac, wrth iddi droelli drwy Geunant Sawdde (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd ei datguddiadau daearegol), mae'n torri trwy Lechfeini Llandeilo. Mae Llechfeini Llandeilo yn dywodfeini a chalchfeini sy'n llawn ffosilau. Mae sawl rhywogaeth trilobit i'w gweld yn y ffosilau yng Nghalchfeini Llandeilo.

Cafodd clogfeini afon y dyddodion o Hen Dywodfeini Coch eu defnyddio'n helaeth ar gyfer adeiladau ffermydd a thai. Roeddent yn cael eu torri trwy eu cynhesu mewn tân ac yna'n cracio'n eu hanner, i ddatguddio arwyneb gwastad sydd i'w weld ar waliau adeiladau.

Yn agos at ddiwedd y wal gerrig mae camfa sy'n mynd â chi dros y wal. Dilynwch ffin y coetir i lawr rhiw serth iawn. Dilynwch linell y ffens a chroeswch y gamfa i'r ffordd.

Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y lôn, gan droi i'r dde ar y gyffordd ac ymlaen i bentrefan Felindre. Gadewch y ffordd trwy gerdded yn syth yn eich blaen a dilyn y llwybr wedi'i farcio. Dilynwch y nant nes ichi gyrraedd Lôn y Coed (coedwig Coed Cadw). Dilynwch y llwybr a chymerwch y gangen i'r dde tuag at y gamfa. Cerddwch gyda'r goedwig ar y dde ichi a chaeau agored ar y chwith nes ichi ddod yn ôl at y gamfa rhwng y coetir a'r cae.

